Briff Cycling UK Cymru – etholiadau'r Senedd 2026

# Buddsoddi mewn Teithio Llesol

I gefnogi Cymru iachach, decach a mwy cynaliadwy, rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru buddsoddi mwy mewn cynlluniau sy'n caniatáu i bobl gerdded, olwyno a seiclo - h.y. teithio llesol. Dylid defnyddio arian aml-flwyddyn a neilltuwyd ar gyfer prosiectau seilwaith cyfalaf (e.e. llwybrau seiclo o ansawdd) a phrosiectau refeniw (e.e. hyfforddiant seiclo yn y gymuned, cynlluniau mynediad i feiciau, cynllunio teithio lleol) i dalu am y buddsoddiad hwn.

### Gofyniad maniffesto Cycling UK

Dylai Llywodraeth nesaf Cymru ddarparu:

- **Cyllid aml-flwyddyn parhaus wedi'i neilltuo** a buddsoddi **o leiaf 10% o'r holl gyllideb drafnidiaeth** mewn seiclo, cerdded ac olwyno. Rhaid i'r cyllid hwn gynnwys prosiectau cyfalaf (fel llwybrau seiclo newydd o ansawdd) a chostau parhaus (fel prosiectau newid ymddygiad er mwyn galluogi mwy o bobl i seiclo).
- **Adroddiadau clir i'r cyhoedd** yn nodi buddion buddsoddi mewn teithio llesol o ran iechyd, yr hinsawdd a thrafnidiaeth, a'i werth am arian. Mae hyn yn hanfodol er mwyn gwarantu bod y buddsoddiad yn gynhwysol, yn seiliedig ar dystiolaeth, yn atebol i'r cyhoedd ac yn cyflawni canlyniadau o ran **bywydau a wellhawyd,** nid dim ond y milltiroedd o lwybrau a adeiladwyd.

### Y cyd-destun

Dangosodd Cymru uchelgais cadarnhaol o ran teithio llesol yn Neddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, sy'n ei wneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynllunio a chyflenwi rhwydweithiau cerdded a seiclo. Ond mae angen mwy o weithredu i droi'r uchelgais yn ddarpariaeth a thyfu nifer y teithiau llesol.

Gwariodd Llywodraeth Cymru £65 miliwn yn cyflenwi cynlluniau teithio llesol yn 2024/25, oddeutu 3.5% o'r gyllideb drafnidiaeth. Mae'r lefelau cyllid cyffredinol wedi parhau'n gymharol sefydlog yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ar hyn o bryd, mae'r Llywodraeth yn bwriadu dosbarthu'r cyllid hwn i gynghorau trwy Gydbwyllgorau Corfforaethol rhanbarthol, ond heb y camau diogelu sydd eu hangen i sicrhau y caiff yr arian ei wario ar brosiectau teithio llesol.

Mae Cynllun Cyflawni Teithio Llesol Llywodraeth Cymru (2024–27) yn cydnabod bod cynyddu'r nifer o deithiau ar droed neu ar feic yn allweddol i gwrdd â thargedau sero net erbyn 2050, gwella iechyd cyhoeddus, a lleihau'r anghydraddoldeb o ran mynediad i addysg a chyflogaeth. Fodd bynnag,

beirniadwyd y llywodraeth gan Swyddfa Archwilio Cymru am beidio â chasglu digon o ddata i ddangos a yw'r arian a wariwyd wedi cyflawni'r nodau hyn.

## Tystiolaeth ac Effaith

- Lefel buddsoddiad: Cyfrifodd gwaith ymchwil gan IPPR bod angen i lywodraethau wario o leiaf 10% o'u cyllidebau trafnidiaeth ar deithio llesol er mwyn creu seilwaith seiclo o'r radd flaenaf.
- Cynyddu seiclo: Mae llwybrau seiclo o ansawdd yn gweithio ac yn cynyddu'r nifer o bobl sy'n teithio ar feiciau. Mae Beicffordd 1 yng Nghaerdydd yn cysylltu cymunedau ac yn caniatáu i bobl seiclo.
- Enillion economaidd: Am bob £1 a wariwyd ar gynlluniau seiclo a cherdded yn y DU, cyflawnir gwerth £5.62 o fuddion ar gyfartaledd.
- Iechyd a llesiant: Gall teithio llesol rheolaidd leihau risg clefyd y galon, strôc, diabetes ac iselder. Mae cynyddu seiclo'n cam gweithredu yng nghynllun Pwysau Iach: Cymru Iach Llywodraeth Cymru.
- Tegwch a chynhwysiant: Mae seilwaith teithio llesol yn gwella mynediad i addysg, swyddi a gwasanaethau, yn enwedig ymysg aelwydydd incwm isel lle mae llai o bobl yn berchen ar gar.

## I gloi

Gosodwyd y sylfeini i wneud teithiau'n weithgar ac yn gynaliadwy gan ddeddfwriaeth deithio llesol Cymru – gan drawsnewid bywydau a chymdogaethau. Ond nid yw'r gwariant presennol yn ddigon i gyflawni'r uchelgeisiau cenedlaethol, ac ni fydd cynnydd cadarnhaol yn parhau heb newid sylweddol o ran ymrwymiad.